CIWB

**Tasg 2**

# Eich taith chi

Gwrandewch ar y darn eto.

1. Ydych chi'n gallu cofio'r cwestiynau?
   Ysgrifennwch nhw yma.

2. Cymharwch eich syniadau chi mewn grŵp.

Os ydy'ch partneriaid chi wedi ysgrifennu cwestiynau sy ddim ar eich rhestr chi, ysgrifennwch y cwestiynau yna ar eich rhestr chi hefyd.

Ewch i'r dudalen nesaf.

CIWB

3. Meddyliwch am daith arbennig yn y gorffennol ac ysgrifennwch y manylion yn y grid:

| | |
|---|---|
| Ble: | |
| Pryd: | |
| Gyda / efo pwy: | |
| Pam: | |
| Sut teithio: | |
| Gwneud beth: | |
| Bwyta beth: | |
| Yfed beth: | |
| Sut oeddech chi'n teimlo: | |
| Mwynhau? | |

Edrychwch ar y grid eto – ydych chi'n gallu cynnwys mwy o fanylion?

Ewch i'r dudalen nesaf.

Beth am ...?

| | |
|---|---|
| Ble **yn union**: | yng Ngogledd ...<br>yn Ne ...<br>yng Ngorllewin ...<br>yn Nwyrain<br>ger ...<br>... milltir / cilomedr tu allan i ... |
| Pryd **yn union**: | y dyddiad<br>yr amser<br>y tymor |
| Gyda / efo pwy: | Dwedwch rywbeth am y bobl. |
| Pam: | Rhowch resymau da. |
| Sut teithio: | o ble / i ble<br>Disgrifiwch y daith – hir / byr / cyffrous / diflas?<br>Rhowch eich barn am y daith.<br>rhy hir achos ...<br>diflas ofnadwy achos ... |
| Beth gwneud: | Beth wnaethoch chi, e.e. rhowch gymaint o fanylion â phosib.<br>***Mewn parc dŵr:***<br>*Es i i fyny'r llithren ddŵr yn y car bach coch yn araf, araf ... ac yna, yn sydyn, des i i lawr yr ochr arall yn gyflym iawn – fel mellten. Roedd fy nillad i'n wlyb. Roedd fy ngwallt i'n wlyb. Roeddwn i'n wlyb, wlyb, wlyb ...* |
| Beth bwyta / yfed: | Disgrifiwch y bwyd.<br>Rhowch eich barn chi am y bwyd – blasus? Di-flas? Bendigedig? Ofnadwy?<br>Pam? e.e. gormod o siwgr / sbeis? Dim digon o halen? Rhy boeth? |
| Sut oeddech chi'n teimlo: | Rhowch resymau, e.e.<br>*Roeddwn i'n wlyb, wlyb, wlyb ... ond roeddwn i wrth fy modd achos roedd y llithren yn hwyl ac roedd fy ffrindiau gyda fi.* |
| Mwynhau? | Rhowch resymau, e.e.<br>Mwynheuais i achos ...<br>Fwynheuais i ddim achos ... |
| Gwnewch i'r gwaith swnio'n Gymraeg: | Defnyddiwch:<br>a dweud y gwir<br>a bod yn onest<br>heb os nac oni bai |

Ewch yn ôl i'r grid yng nghwestiwn 3. a rhowch fwy o fanylion yn y grid.

CIWB

4. Ysgrifennwch am y daith, e.e. llythyr i gylchgrawn fel **Ciwb**, neges at ffrind ac ati.

5. Gofynnwch i'ch partner chi am ei daith.
Defnyddiwch rai o'r cwestiynau yng nghwestiwn 1.
Llenwch y grid yma am daith eich ffrind chi.

| TAITH: | |
|---|---|
| Ble: | |
| Pryd: | |
| Gyda / efo pwy: | |
| Pam: | |
| Sut teithio: | |
| Beth gwneud: | |
| Beth bwyta: | |
| Beth yfed: | |
| Sut teimlo: | |
| Mwynhau? | |

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| mellten | bolt of lightning | gormod o | too much |
| di-flas | tasteless | neges | message |